# Comisiynydd Plant Cymru: Cynllun ar gyfer cyflawni dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

Mae Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, ac wrth wneud hynny, hybu gwydnwch ecosystemau.

Bioamrywiaeth yw'r sylfaen ar gyfer gwydnwch ecosystemau a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, a nod dyletswydd A6 yw sicrhau bod bioamrywiaeth yn dod yn rhan annatod o'r penderfyniadau a'r camau gweithredu mae awdurdodau cyhoeddus yn eu cymryd mewn perthynas â Chymru.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cynllun y Comisiynydd ar gyfer 2019-22 ac mae wedi'i strwythuro'n unol â'n fframwaith perfformiad, sy'n cwmpasu 4 maes: Plant a Phobl Ifanc; Pobl CPC (staff); prosesau sefydliadol; sefydlogrwydd ariannol a gwerth am arian.

Yn 2017 fe wnaethon ni wahodd eco-bwyllgor ysgol (Ysgol Gynradd Glyncollen) i archwilio arferion ein swyddfa o ran gweithredu amgylcheddol. Fe gynhyrchon nhw 5 argymhelliad oedd yn cynnwys mwy o rannu ceir, deunyddiau celf bioddiraddadwy ar gyfer digwyddiadau, defnyddio papur wedi'i ailgylchu, bylbiau golau ynni isel a mwy o ailgylchu. Er ein bod ni wedi gwneud cynnydd gyda phob un o'u hargymhellion, yr unig un rydyn ni wedi'i gwblhau'n llawn yw'r newid i bapur wedi'i ailgylchu ar gyfer argraffu a llungopïo. Rydyn ni'n dal i weithio ar yr argymhellion eraill, ac maen nhw wedi'u cynnwys isod.

Byddwn ni'n adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn ein hadroddiadau blynyddol o 2020 ymlaen.

## Plant a Phobl Ifanc

| | Person sy'n gyfrifol | amserlen | Cynnydd ym mis Mai 2020 |
|---|---|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth ag eco-ysgolion Cymru i gyflawni ein prosiect Gwyrdd-droi, sy'n ailgylchu ac yn ailddefnyddio gwisg ysgol, ffrogiau 'prom' a dillad eraill | **Pennaeth Ymarfer** | **Mawrth 2020** | Tasg arbennig lwyddiannus a gyflawnwyd gan nifer ardderchog ledled Cymru. Mabwysiadodd Sir y Fflint hyn yn un o nodau allweddol yr awdurdod lleol. |
| Parhau i gefnogi plant i gael gwrandawiad gan lywodraeth leol a chanolog pan fyddan nhw'n mynegi barn ar newid yn yr hinsawdd, lleihau gwastraff plastig ac ailgylchu. | **Pennaeth Ymarfer** | **Parhaus** | Pecyn offer actifyddiaeth wedi'i gyhoeddi, gydag actifyddiaeth amgylcheddol yn un o'r prif themâu.<br><br>Wedi ysgrifennu at sefydliadau allweddol yn cynnig gweithio mewn partneriaeth ar y mater hwn. |
| Datblygu pecyn offer actifyddiaeth ar gyfer ysgolion. | **Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus** | **Mawrth 2020** | Wedi'i gwblhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogi pwyllgorau'r senedd Ieuenctid sy'n gweithio i leihau gwastraff plastig a newid yn yr hinsawdd | **Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus** | **Chwefror 2021** | Parhaus; rydyn ni wedi rhannu manylion ymgyngoriadau a digwyddiadau gydag aelodau ein panel ymgynghorol. |
| Cyhoeddi astudiaeth achos fel rhan o'n Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, yn dangos y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a hawliau dynol plant. | **Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus** | **Rhagfyr 2020** | Yn cadw at y cynllun |

## Pobl CPC a llety

| | Person sy'n gyfrifol | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod yr holl staff yn dal i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ar gyfer eu gwaith, yn unol â pholisïau CPC (ond lle maent wedi'u heithrio am resymau iechyd, anabledd, neu gyfrifoldebau gofalu). | **Pennaeth Cyllid** | **parhaus** | Mae hyn yn cael ei wirio fel rhan o awdurdodi costau teithio a chynhaliaeth gan reolwyr llinell. Oherwydd COVID19 ni fu teithiau busnes yn Chwarter 1 2020. |
| Parhau i annog rhannu ceir yn y swyddfa trwy drefnu rhestrau rhannu ceir ar gyfer pob digwyddiad a diwrnod hyfforddi. | **Pennaeth Ymarfer** | **Parhaus** | Mae'r staff yn rhannu ceir fel mater o drefn ar gyfer Digwyddiadau Cyfranogiad. Ni fu diwrnodau hyfforddi staff ers i'r cynllun gweithredu hwn ddod i rym, yn rhannol oherwydd COVID19. |
| Sicrhau bod staff newydd yn derbyn gwybodaeth am ein cynllun gwyrdd cymorth i brynu car a beic yn ystod eu cyfnod sefydlu. | **Pennaeth Adnoddau Dynol** | **Parhaus** | Wedi'i gwblhau a'i ymgorffori i'r rhestr wirio ar gyfer y cyfnod sefydlu. |
| Archwilio mesurau i annog amrywiaeth y tu allan i'n swyddfa, a buddsoddi ynddynt os yw hynny'n briodol, gan gynnwys o bosib gynwysyddion yn llawn planhigion sy'n denu gwenyn, blychau nythu a/neu 'gartrefi trychfilod'. Mae'r coetir i'r Gogledd-ogledd-ddwyrain o adeilad Tŷ Ystumllwynarth yn gynefin allweddol ar gyfer mwsogl a chen prin. Bydd angen ystyried yn ofalus ble mae mesurau o'r fath yn cael eu lleoli. | **Pennaeth Cyllid** | **Rhagfyr 2020** | Wedi'i ymgorffori i gynlluniau'r prosiect llety |
| Sicrhau bod cymaint â phosib o wastraff y swyddfa yn cael ei ailgylchu | **Pennaeth Cyllid** | **Mawrth 2020** | Rydyn ni wedi newid ein cyflenwr gwaredu gwastraff fel bod modd ailgylchu'r rhan fwyaf o wastraff y swyddfa o fis Ebrill 2020 ymlaen. Ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hyn o bryd mae gwaredu gwastraff wedi'i atal oherwydd Covid 19. |
| Sicrhau ein bod ni'n parhau i ddefnyddio papur wedi'i ailgylchu ar gyfer yr holl argraffu a llungopïo, a sicrhau bod adroddiadau sy'n cael eu hargraffu hefyd ar bapur sydd 100% wedi'i ailgylchu, pan fernir bod argraffu'n angenrheidiol. | **Pennaeth Perfformiad a Chyfathrebu** | **Mawrth 2020 ac yn barhaus** | Wedi'i gwblhau ac yn parhau |
| Cynnwys cynaliadwyedd fel elfen allweddol o'r prosiect llety sy'n parhau. | **Pennaeth Ymarfer** | **Mawrth 2020** | Yn parhau. Oedi gyda'r prosiect oherwydd COVID 19 |
| Tîm y prosiect llety i archwilio'r goleuadau yn y swyddfa er mwyn sicrhau bod bylbiau ynni isel yn cael eu defnyddio ym mhob man. | **Pennaeth Ymarfer** | **Mehefin 2020** | Yn parhau. Oedi gyda'r prosiect oherwydd COVID 19 |
| Tîm y prosiect llety i adolygu defnydd o oeryddion dŵr yn y swyddfa (ar hyn o bryd maen nhw'n cael eu hail-lenwi o bistyll lleol). | **Pennaeth Ymarfer** | **Mehefin 2020** | Yn parhau. Oedi gyda'r prosiect oherwydd COVID 19 |
| Tîm y prosiect llety i archwilio'r defnydd o oleuadau yn yr adeilad a'r tu allan iddo yn ystod y nos. Mae llygredd golau yn un o'r ffactorau allweddol sy'n achosi dirywiad yn nifer pryfed, a gallai fod yn gwastraffu ynni. | **Pennaeth Ymarfer** | **Mehefin 2020** | Yn parhau. Oedi gyda'r prosiect oherwydd COVID 19 |

## Prosesau sefydliadol

| | Person sy'n gyfrifol | amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cynnwys bioamrywiaeth fel ystyriaeth hanfodol yn ein Polisi Caffael. | **Pennaeth Cyllid** | **Mawrth 2020** | Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y polisi caffael pan gaiff ei adolygu yn nhrydydd chwarter 2020-21. |
| Cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth yn ein fframwaith gwerthuso perfformiad. | **Pennaeth Perfformiad a Chyfathrebu** | **Mawrth 2020 ac yn flynyddol** | Wedi'i gwblhau |
| Adolygu cynnydd y cynllun hwn bob 6-mis yn y tîm rheoli. | **Y Comisiynydd** | **Parhaus Mehefin 2020 Rhagfyr 2020 Mehefin 2021 Rhagfyr 2021 Mehefin 2022** | Wedi'i gynnwys yn amserlen cyfarfodydd a gwaith goruchwylio'r Tîm Rheoli |
| Adrodd ar ein llwyddiant i gadw at y ddyletswydd bioamrywiaeth yn ein hadroddiad blynyddol. | **Pennaeth Perfformiad a Chyfathrebu** | **Mis Hydref bob blwyddyn** | Yn cadw at y cynllun ar gyfer mis Hydref 2020 |

## Sefydlogrwydd ariannol a gwerth am arian

| | Person sy'n gyfrifol | Amserlen | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod ein Canllaw Digwyddiadau yn cynnwys gallu defnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd yno fel maen prawf hanfodol wrth archebu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau rydyn ni'n eu trefnu. | **AW a holl noddwyr prosiectau** | **Mawrth 2020** | Wedi'i gwblhau. Mae'r canllaw digwyddiadau yn cynnwys adran ar leoliad ac yn cyfeirio'n benodol at y gallu i ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd yno |
| Sicrhau bod deunyddiau wedi'u hailgylchu, rhai organig neu rai bioddiraddadwy yn cael eu hystyried yn benodol wrth archebu cyflenwadau swyddfa sy'n cynnwys deunydd glanhau, deunydd papur, 'rhoddion' a deunyddiau celf. (Ymchwilio i argaeledd 'rhoddion' sy'n annog bioamrywiaeth fel hadau blodau neu becynnau syniadau ar gyfer bioamrywiaeth fel adeiladu cartrefi i drychfilod.) | **Pennaeth Perfformiad a Chyfathrebu** | **Erbyn Mawrth 2020 yn y lle cyntaf ac yna'n barhaus** | Yn cadw at y cynllun |
| Adolygu polisïau ein banc ar fuddsoddiadau moesegol a chynaliadwy, ac ystyried newid os bydd adolygiad yn cyfiawnhau hynny. | **Pennaeth Cyllid** | **Rhagfyr 2020** | Yn cadw at y cynllun |
| Ymchwilio i gynaliadwyedd cynlluniau buddsoddi darparwyr pensiwn ac archwilio opsiynau yn dibynnu ar y canlyniadau. | **Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus** | **Mawrth 2020** | I'w roi ar waith fel rhan o adolygiad moesegol o'r contract |
| Parhau i chwilio am ffynonellau sydd 100% yn adnewyddadwy wrth gynnal yr adolygiad blynyddol o'r cyflenwr trydan. | **Pennaeth Cyllid** | **Parhaus** | Byddwn ni'n cynnwys hyn mewn adolygiad o ddarparwyr ynni cyn adolygu'r contract |
| Gwrthbwyso carbon wrth hedfan at ddibenion busnes fel rhan o bolisïau Cyllid. Ni ddylid hedfan ond pan nad oes mathau eraill o drafnidiaeth ar gael neu os ydyn nhw'n anymarferol. | **Pennaeth Cyllid** | **Parhaus** | Nodwyd hyn, a bydd yn cael ei fonitro |